# Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 6 Chwefror 2024

Amser: 09.00 - 09.20

# Preifat

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
| --- | --- |
| Aelodau'r Pwyllgor: | Elin Jones AS, Llywydd (Cadeirydd)<br>Heledd Fychan<br>Lesley Griffiths AS<br>Darren Millar AS |
| Staff y Pwyllgor: | Graeme Francis (Clerc)<br>Yan Thomas (Dirprwy Glerc) |
| Eraill yn bresennol | Jane Dodds AS<br>David Rees AS, Y Dirprwy Lywydd<br>Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd<br>Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd<br>Bethan Davies, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Julian Luke, Pennaeth Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth<br>Helen Carey, Llywodraeth Cymru |

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

Croesawodd y Llywydd yr aelodau i'r cyfarfod.

## 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod blaenorol i'w cyhoeddi.

## 3 Trefn Busnes

### 3.1 Busnes yr wythnos hon

**Dydd Mawrth**

Rhoddodd y Trefnydd wybod i'r Rheolwyr Busnes am y newidiadau a ganlyn:

- <u>Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol: Adolygiad Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru o ddiwylliant a gwerthoedd – y camau nesaf (45 munud)</u>
- ~~Gwasanaethau Preswyl Ysgolion Arbennig (Darparwyr Gwasanaeth ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2024 (5 munud)~~ *Gohiriwyd*
- <u>Cynnig i atal y Rheolau Sefydlog dros dro (5 munud)</u>
- <u>Dadl: Y diwydiant dur yng Nghymru (60 munud)</u>

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal fel yr eitem olaf o fusnes.
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 8.20pm

**Dydd Mercher**

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal cyn y Ddadl Fer.
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 7.10pm.

### 3.2 Amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Rhoddodd y Trefnydd wybod i'r Rheolwyr Busnes am y newid a ganlyn i amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf:

**Dydd Mawrth 20 Chwefror 2024**

- Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant: Y Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant a'r Strategaeth Atal Hunanladdiad a Hunan-niwed (45 munud)

**Dydd Mawrth 5 Mawrth 2024**

**Pwyllgor o'r Senedd Gyfan**

- Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) - trafodion Cyfnod 2

**3.3 Amserlen busnes y Senedd ar gyfer y tair wythnos nesaf**

Gan fod y Pwyllgor o'r Senedd Gyfan yn cael ei gynnal ar 6 Mawrth, cytunodd y Pwyllgor i beidio â threfnu unrhyw ddadleuon y diwrnod hwnnw.

**Dydd Mawrth 6 Mawrth 2024 -**

**Pwyllgor o'r Senedd Gyfan**

- Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) - trafodion Cyfnod 2

# 4 Deddfwriaeth

## 4.1 Amserlenni ar gyfer Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) a Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru).

Bu'r Pwyllgor Busnes yn ystyried papur ynghylch yr amserlenni ar gyfer Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) a Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru). Cytunodd y Pwyllgor i ohirio penderfyniad ar adolygu'r amserlenni ar gyfer y Biliau er mwyn ymgynghori â'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai ac i ddychwelyd at y mater mewn cyfarfod yn y dyfodol.

Gofynnodd y Pwyllgor Busnes hefyd am nodyn ar y trefniadau ar gyfer penodi Cwnsler Cyffredinol unwaith y byddai deiliad presennol y swydd yn peidio â dal ei swydd, yn unol â Rheol Sefydlog 9.8, os enwebir Aelod i'w benodi'n Brif Weinidog Cymru. Byddai'r nodyn hefyd yn ymdrin â chylch gorchwyl a chyfrifoldebau'r Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad presennol.

## 4.2 Diweddariad ar Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i wneud yr hyn a ganlyn:

- cyfeirio'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Cyfiawnder Troseddol a osodwyd ar 29 Ionawr at y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar gyfer craffu arno, gyda dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad ar 22 Mawrth 2024;
- cyfeirio'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Rhentwyr (Diwygio) a osodwyd ar 30 Ionawr 2024 at y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar gyfer craffu arno, gyda dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad ar 15 Mawrth 2024;
- cyfeirio'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar y Bil Diwygio Lesddaliadau a Rhydd-ddaliadau a osodwyd ar 30 Ionawr 2024 at y Pwyllgor

Llywodraeth Leol a Thai a’r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad ar gyfer craffu arno, gyda dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad ar 15 Mawrth 2024.